



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor (01443 424062)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **Grŵp LLYWIO'R CABINET AR FATERION YR HINSAWDD** yn cael ei gynnal ar **Dydd LLUN, 16EG TACHWEDD, 2020** am **14.00 PM**.

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Iau, 15 Hydref 2020 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020 yn rhai cywir.

### **3. ASEDAU NATURIOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n rhoi cyfle i'r Grŵp Llywio drafod materion sy'n ymwneud ag Asedau Naturiol a'r argyfyngau o ran yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

11 - 24

### **4. CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL A LLEOL - EU POLISIÄU A'U HYMRWYMIADAU I SICRHAU BOD ISADEILEDD TAI, TRAFNIDIAETH A BUSNES YN LLEIHOU EU HÖL-TROED CARBON.**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n nodi gofynion y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI) mewn perthynas â pholisïau ac ymrwymïadau i leihau'r Ôl-troed Carbon.

25 - 36

### **5. LLEIHOU'R DEFNYDD O BLASTIGAU UN-TRO YN HOLL GONTRACTAU AC ADEILADAU'R CYNGOR**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol, sy'n rhoi gwybod i'r Grŵp Llywio am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r archwiliad manwl ar y categorïau gwariant hynny lle mae plastigau un-tro'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd; a Chynllun Gweithredu sydd â'r nod o leihau neu ddileu'r defnydd o blastigau un-tro (lle bo hynny'n ymarferol) ym mhob rhan o'r Cyngor erbyn diwedd 2020.

37 - 50

### **6. CAFFAEL CYFLENWADAU A GWASANAETHAU YN LLEOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol, sy'n rhoi diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ar y gwaith sydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn elwa ar ei drefniadau caffael yn y modd gorau posibl.

51 - 56

### **7. CYNHYRCHU YNNI A MATERION CYSYLLTIEDIG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n darparu diweddariad dros dro o'r sefyllfa o ran gwaith Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd hyd at 30/09/20. Yn dilyn atal gwahanol gyfarfodydd y Cyngor o ganlyniad i'r Llifogydd a'r Coronafeirws, nid yw'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd wedi cyfarfod ers mis Ionawr 2020. Mae'r Adroddiad Diweddaru yma'n nodi manylion y sefyllfa bresennol o ran y gwaith sydd ar y gweill ym maes datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a materion cysylltiedig eraill.

57 - 68

### **8. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

## **Cylchreliad:-**

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

Y Cynghorydd R Lewis, Y Cynghorydd M Webber, Y Cynghorydd M Norris,  
Y Cynghorydd A Crimmings, Y Cynghorydd S Belzak ac Y Cynghorydd E Webster

### **Swyddogion:**

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.

Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor

Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad

### **Cynrychiolaeth Allanol:**

Cyfeillion y Ddaear

Croeso i'n Coedwig